

Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol (Dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r
Fro, Ysbyty'r Barri, Ward Sam Davies
(gwasanaethau aciwt a chanolraddol i
bobl hŷn)**

5 a 6 Awst 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn:	0300 062 8163
Ebost:	agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs:	0300 062 8387
Gwefan:	www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	3
4.	Crynodeb	4
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd Profiad y Claf	6
	Cyflenwi Hanfodion Gofal	8
	Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
6.	Y Camau Nesaf.....	25

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad urddas a gofal hanfodol ar Ward Sam Davies (gwasanaethau aciwt a chanolraddol i bobl hŷn) yn Ysbyty'r Barri, rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn ddirybudd ar 5 a 6 Awst 2014.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi hanfodion gofal
- Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol

2. Methodoleg

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol AGIC yn arolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal mewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn arolygu dogfennau a gwybodaeth wrth nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion, perthnasau a chyfweliadau gyda staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr y bwrdd iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal a'r arferion gofal.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch urddas a gofal hanfodol.

3. Cyd-destun

Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro yw un o sefydliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) mwyaf y Deyrnas Unedig (DU). Mae'n darparu gwasanaethau iechyd o ddydd i ddydd i boblogaeth o tua 472,400 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg sydd angen triniaeth ysbyty a gofal iechyd meddwl brys ac wedi'u trefnu. Mae aelodau staff y bwrdd iechyd hefyd yn darparu gofal yng nghartrefi pobl ac mewn clinigau cymuned.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn gyfrifol am y ddarpariaeth o wasanaethau gofal sylfaenol y GIG yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gan gynnwys meddygon teulu, fferyllwyr cymunedol, deintyddion ac optometryddion. Hefyd, mae'n gwasanaethu poblogaeth ehangach ar draws y de a'r canolbarth ar gyfer arbenigeddau fel gofal dwys pediatrig, gwasanaethau arbenigol plant, gwasanaethau arennol, gwasanaethau'r galon, niwroleg, trawsblaniadau mêr esgyrn a geneteg feddygol.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gerontoleg Glinigol, y Gyfarwyddiaeth Gofal Acíwt a Chanolraddol i Bobl Hŷn gynt, yn rhan o Fwrdd Clinigol Meddygaeth BIP Caerdydd a'r Fro. Mae'r gyfarwyddiaeth yn cynnwys nawr ward a thri ysbyty dydd wedi eu lleoli ar draws 5 safle ysbyty ar wahân.

Agorwyd Ysbyty Cymuned y Barri ym 1995 ac mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd i drigolion Bro Morgannwg, gan gynnwys: cleifion allanol, mân-anafiadau, radioleg, wardiau adsefydlu, wardiau gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn, therapïau a gwasanaethau deintyddol, meddyg teulu a'r tu allan i oriau.

Ward adsefydlu 23 gwely yw Ward Sam Davies. Ceir dau wely seibiant ar y ward, sydd ar gyfer cleifion sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG, ac mae'n derbyn atgyfeiriadau cleifion gan aelodau staff proffesiynol cymunedol yn ogystal ag ysbytai eraill.

4. Crynodeb

Yn ystod yr arolygiad hwn gwelsom fod yr aelodau staff yn broffesiynol, yn gyfeillgar ac yn dangos parch yn eu dull o ymdrin â phob agwedd ar y ddarpariaeth o ofal i gleifion, a wnaed mewn ffordd synhwyrol a sensitif. Fe'n hysbyswyd gan gleifion bod eu profiad o'r gwasanaeth yn gadarnhaol. Cawsom adroddiadau da ganddynt hefyd ar ansawdd y gofal ac agweddau'r aelodau staff.

Yn gyffredinol, roedd cleifion a pherthnasau'n teimlo bod yr aelodau staff yn cynnig digon o wybodaeth iddynt am ofal a thriniaeth mewn ffordd sy'n ystyriol o'u hanghenion. Gwelsom hefyd fod yr aelodau staff yn cymryd amser i wrando ar gwestiynau a ofynnir gan gleifion a'u perthnasau ac yn ymateb iddynt yn ymarferol.

Gwelsom sut roedd yr aelodau staff yn siarad â chleifion a pherthnasau yn unol â'r safon sy'n ofynnol dan yr 'Hanfodion Gofal' a dangosodd yr aelodau staff bod ganddynt berthynas dda â'r holl gleifion.

Gwelsom lawer o enghreifftiau o ryngweithio cyfeillgar ond parchus rhwng aelodau staff a chleifion wrth eu cynorthwyo i symud o gwmpas y ward.

Canfuwyd bod cleifion yn cael eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl, ac roedd yr aelodau staff yn eu cynorthwyo i symud o gwmpas y ward gyda chymhorthion cerdded priodol ac yn cynnig cefnogaeth foisol yn ogystal â chorfforol. Fodd bynnag, hysbyswyd y bwrdd iechyd am yr angen i gynyddu cyfleoedd i annog a hybu hunanreolaeth cleifion o gyflyrau gofal iechyd penodol a nodwyd, i baratoi ar gyfer eu rhyddhau'n ddiogel.

Canfuwyd gennym fod perthnasau'n cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gofal cleifion. Ystyrir bod hyn yn arfer da, yn enwedig mewn achosion pan fo gan gleifion anawsterau cyfathrebu a nodwyd neu golled cof byrdymor.

Gwelsom y rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur cleifion fel y gallant orffwyso a chysgu.

Cynorthwywyd cleifion yn gyffredinol i fod mor rhydd o boen ag yr oedd eu cyflwr a'u hamgylchiadau'n ei ganiatáu; ni ddangosodd cleifion i ni siarad â nhw unrhyw arwyddion eu bod yn anghyfforddus a dywedasant eu bod yn gyfforddus. Fodd bynnag, pan edrychwyd ar sampl o ddogfennau cleifion, roedd siartiau sgorio poen ar gael, ond roedd yn anodd dod o hyd i gofnod ysgrifenedig o sut roedd aelodau staff wedi asesu effeithiolrwydd meddyginiaeth presgripsiwn.

Mae gan y cleifion rywfaifaint o ddewis a dylanwad dros y gofal a'r gefnogaeth maent yn eu derbyn, ac mae'r aelodau staff yn cynnig cymorth a/neu anogaeth briodol i bob claf o ran ei hylendid personol.

Roedd gan gleifion sy'n gallu yfed yn annibynnol fynediad rhwydd at hylifau. Ail-lenwyd eu jygiau dŵr yn rheolaidd drwy'r dydd ac ar gais. Canfuwyd fod y jygiau dŵr o fewn cyrraedd rhwydd i'r cleifion ac roedd diodydd poeth ar gael yn rheolaidd ar gais hefyd. Gwelsom hefyd aelodau staff yn cynorthwyo cleifion nad oeddent yn gallu yfed yn annibynnol.

Roedd yn amlwg bod cleifion yn cael eu cefnogi i gynnal cegau iachus a chyfforddus a dannedd a deintgig sy'n rhydd o boen, gan eu galluogi i fwyta'n dda ac atal problemau cysylltiedig.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y toiledau'n lân ac yn daclus ac roedd seinyddion cymorth brys o fewn cyrraedd rhwydd i'r cleifion ym mhob un ohonynt. Roedd clychau galw'r nyrsys yn cael eu hateb yn brydlon ac ni ddywedodd unrhyw glaf ei fod mewn trallod o ganlyniad i orfod aros am gymorth.

Canfuwyd tystiolaeth gennym fod yr aelodau staff yn defnyddio dull asesu mannau pwysu i'w cynorthwyo i nodi'r cleifion hynny a allai fod mewn perygl o ddatblygu wlsrau pwysu/niwed i'r croen. Roedd y cofnodion cleifion i ni eu hadolygu'n cynnwys asesiadau risg unigoledig o ran yr agwedd hon ar ofal o'r pwynt derbyn.

Gall cleifion fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda. Roedd y brif nyrs yn gallu darparu gwybodaeth gynhwysfawr am y gwasanaeth a ddarperir a sut mae hwn yn berthnasol i angen y claf. Cefnogir tîm y ward gan arweinyddiaeth glinigol gref a ddarperir gan uwch reolwyr ac roedd diwylliant agored a chadarnhaol yn amlwg ar y ward.

Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod aelodau staff y ward yn rhoi sylw i ddarparu gwasanaeth diogel i gleifion. Roedd amgylchedd y ward yn lân ac yn ffres ac roedd yn ymddangos bod safonau hylendid yn foddhaol. Nodwyd o sgysiau gyda chleifion eu bod yn fodlon gyda'r glendid yn eu hardal.

Canfuwyd o graffu ar sampl o gofnodion cleifion nad oedd rhai nodiadau nyrsio'n cynnwys asesiadau risg cleifion na chynlluniau gofal unigoledig. Pan roedd cynlluniau gofal ar gael, roedd y manylion yn gyffredinol ac nid oeddent yn seiliedig ar anghenion unigol yn unol â safonau gofynnol y GIG. Prin oedd y dystiolaeth yn rhai o'r cofnodion cleifion a archwiliwyd hefyd o gynllunio gofal neu bennu nodau a phrin oedd y dystiolaeth o gynllun gweithredu i oresgyn problemau a gwneud cynnydd at ryddhau lle nodwyd peryglon i ryddhad.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom yn ystod yr arolygiad hwn fod yr aelodau staff yn broffesiynol, yn gyfeillgar ac yn dangos parch yn eu dull o ymdrin â phob agwedd ar y ddarpariaeth o ofal i gleifion, a wnaed mewn ffordd synhwyrol a sensitif. Fe'n hysbyswyd gan gleifion bod eu profiad o'r gwasanaeth yn gadarnhaol. Cawsom adroddiadau da ganddynt hefyd ar ansawdd y gofal ac agweddau'r aelodau staff.

Cawsom sgwrs gyda nifer o gleifion a pherthnasau yn ystod ein harolygiad a rhoddwyd cyfle iddynt gwblhau holiadur adborth. Pan ofynnwyd iddynt am eu gofal, roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol fodlon ar y ffordd y darperir gofal, faint o fwyd a diod sydd ar gael a'i ansawdd, mynediad at doiledau ac ymatebolrwydd aelodau staff. Roedd yr holl gleifion i ni siarad â nhw yn cytuno bod y ward yn eithriadol o lân a thaclus gan fod y wardiau'n cael eu glanhau i safon uchel drwy'r dydd.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion a pherthnasau bod aelodau staff yn gwrtais ac yn gyfeillgar a bod cyfathrebu'n dda. Cadarnhawyd ganddynt hefyd eu bod yn teimlo y gallant ofyn cwestiynau am agweddau ar eu gofal a'u triniaeth a'u bod bob amser yn derbyn ymateb gonest gan aelodau staff. Fe'n hysbyswyd gan gleifion hefyd eu bod yn teimlo bod aelodau staff y ward yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a'u bod bob amser ar gael i'w helpu.

Dywedodd y cleifion fod yr ymateb i glychau galw'r nyrsys yn dda yn ystod y dydd a'r nos. Nodwyd gennym mai ychydig iawn o glychau galw a glywyd yn ystod ein hamser ar y ward a chafwyd ymateb ar unwaith pan y'u defnyddiwyd gan gleifion i ofyn am gymorth.

Ceir ystafell ddydd ddymunol, olau ac awyrog ar y ward sydd ar gael i gleifion ei defnyddio trwy gydol y dydd ac yn ystod amser prydau bwyd hefyd.

Datgelodd sgysiau gyda chleifion y byddai'r gallu i brynu papurau newydd dyddiol a chylchgronau'n gwella eu profiad ar y ward.

Gwelsom fod tîm y ward yn defnyddio arwyddion preifatrwydd yn gyson pan roedd cleifion yn derbyn gofal a chymorth. Mae aelodau'r staff nyrsio bob amser yn sicrhau bod llenni wedi eu tynnu o gwmpas gwelyau'r cleifion pan fo gofal yn cael ei roi. Hefyd, clywsom yr aelodau staff yn siarad â chleifion yn synhwyrol gan sicrhau na ellid clywed sgysiau am ofal personol a chyflyrau meddygol.

Canfuwyd gennym fod yr aelodau staff yn siarad â chleifion ac aelodau eraill o dîm y ward mewn ffordd ddigynnwrf, broffesiynol a chwrtais a chaiff y cleifion eu hannerch gan ddefnyddio'r enw o'u dewis.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cymhorthion cyfathrebu, fel y system dolen sain ar gyfer pobl â phroblemau clyw, ar y ward a dywedodd aelodau staff wrthym fod perthnasau'n cael eu hannog i helpu cleifion weithiau, oherwydd eu gallu cyfyngedig i gyfathrebu.

Fe'n hysbyswyd gan nifer o gleifion bod eu gofal wedi cael eu trafod â nhw a gwelsom dystiolaeth o hyn yn nodiadau'r cleifion.

Nodwyd trwy sgysiau â chleifion bod y bwyd yn gyffredinol dda ac roedd yn edrych yn flasus ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom fod holl aelodau'r staff, waeth beth fo'u gradd, yn cynorthwyo i sicrhau bod bwyd yn cael ei weini i'r cleifion yn brydlon. Er bod y dull 'Amser Bwyd a Amddiffynnir'¹ ar waith, gall perthnasau ymweld i gynorthwyo eu perthynas i fwyta ac yfed yn unol â'u dymuniadau. Gwelwyd cleifion yn bwyta prydau yn eistedd yn neu wrth eu gwelyau, neu gyda grŵp o gleifion yn yr ystafell fwyta gymunedol, yn dibynnu ar ddymuniadau'r claf unigol.

Roedd yn edrych fel bod y cleifion yn derbyn gofal da ac roeddent yn drwsiadus, a dywedasant, er eu bod yn cael eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl, y cynigir cymorth gan aelodau staff mewn ffordd ystyriol ac urddasol yn ôl y gofyn.

Dangosodd sgysiau gyda chleifion ar y ward bod cefnogaeth a diolchgarwch sylweddol am y gofal a'r cymorth a ddarperir gan yr aelodau staff, o bob gradd, gan gleifion a pherthnasau. Cadarnhawyd hyn o graffu ar amrywiaeth o ohebiaeth a dderbyniwyd gan dîm y ward ac sydd wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd 'Diolch'.

¹Cyfnodau yn ystod amser cinio a chinio'r hwyr yw hwn pan fydd yr holl weithgareddau ar ward ysbyty yn stopio. Rhoddir y drefn hon ar waith fel bod nyrsys ac aelodau staff cadw tŷ ar gael i helpu i weini'r bwyd a chynorthwyo cleifion sydd angen help. Mae amser bwyd a amddiffynnir hefyd yn atal ymyriadau diangen i amser bwyd y cleifion.

Cyflenwi Hanfodion Gofal

Yn gyffredinol, roedd cleifion a pherthnasau'n teimlo bod yr aelodau staff yn cynnig digon o wybodaeth iddynt am ofal a thriniaeth mewn ffordd sy'n ystyriol o'u hanghenion. Gwelsom hefyd fod yr aelodau staff yn cymryd amser i wrando ar gwestiynau a ofynnir gan gleifion a'u perthnasau ac yn ymateb iddynt yn ymarferol.

Cyfathrebu a Gwybodaeth

Rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn ynglŷn â'u gofal mewn iaith a dull sy'n sensitif i'w hanghenion.

Gwelsom sut roedd yr aelodau staff yn siarad â chleifion a pherthnasau yn unol â'r safon sy'n ofynnol dan yr 'Hanfodion Gofal' a dangosodd yr aelodau staff bod ganddynt berthynas dda â'r holl gleifion.

Amlygodd sgysiau gydag aelodau staff a chleifion yr ymdrechion a wneir i ddarparu gwybodaeth i gleifion am eu gofal mewn iaith a dull sy'n sensitif i'w hanghenion. Canfuwyd gennym hefyd bod aelodau'r staff meddygol a nyrsio'n siarad â chleifion mewn ffordd ystyriol, ddigynnwrf.

Pan nodir fod gan glaf anawsterau cyfathrebu/iaith, fe'n hysbyswyd gan aelodau staff eu bod yn cynnwys perthnasau a ffrindiau i drafod dymuniadau wrth gynllunio gofal. Mae gan yr aelodau staff fynediad at amrywiaeth dda o gyfleusterau cyfieithu trwy rifau cyswllt switsfwrdd ac roeddent yn ymwybodol hefyd o gydweithwyr eraill yn yr ysbyty sy'n gallu cyfathrebu â chleifion mewn ieithoedd eraill, fel y Gymraeg. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cymhorthion cyfathrebu, fel system dolen sain i bobl â phroblemau clyw, ar y ward.

Argymhelliad

Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried dulliau eraill o gyfathrebu fel y gall cleifion dderbyn gwybodaeth lawn mewn ffordd sy'n ystyriol o'u hanghenion.

Roedd dystiolaeth o gyfathrebu da rhwng tîm y ward a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Hefyd, gan ymateb i anghenion cleifion a nodwyd, roedd atgyfeiriadau priodol wedi eu gwneud at weithwyr proffesiynol eraill, fel deietegwyr a nyrsys diabetig a phoen arbenigol.

Canfuwyd gennym o'r sampl o ffeiliau a archwiliwyd nad oedd yr un yn cynnwys cynllun gofal cynhwysfawr ar gyfer pob risg a nodwyd o ran y ddarpariaeth o ofal cleifion. Canfuwyd gennym yn un set o gofnodion cleifion nad oedd unrhyw

gynllun gofal amlwg na phroses o bennu nodau, er bod rhai risgiau wedi cael eu hamlygu o ran symudedd. Fodd bynnag, ni chanfuwyd unrhyw gynllun gweithredu gennym i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd.

Nodwyd gennym hefyd mai prin oedd y dystiolaeth ysgrifenedig yng nghofnodion y cleifion i nodi a oedd triniaeth neu gyflwr claf wedi cael ei adolygu gyda'r cleifion eu hunain, neu gyda pherthnasau neu ofalwyr. Mae hyn yn golygu nad yw aelodau staff parhaol na banc yn derbyn canllaw eglur ar sut i ddarparu gofal a chymorth i bob claf yn unol â'i anghenion, ei ddymuniadau a'i ddewisiadau. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan gleifion a pherthnasau bod yr aelodau staff yn gwrando arnynt. Roedd cleifion a theuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal a dewis triniaeth ac yn teimlo eu bod yn deall y gofal a'r driniaeth sy'n cael eu darparu.

Nodwyd gennym fod dwy set o nodiadau cleifion nyrsio ar gyfer pob claf. Cedwir un ar yr erchwyn ac yn yng ngorsaf y nyrsys. Roedd gwahanol ddogfennau wedi'u ffeilio yn y ddwy set o nodiadau. Roedd yn anodd darllen un set o ddogfennau felly heb gyfeirio at y llall, sy'n gwneud y system yn afrosgo. Mae hyn hefyd yn creu'r posibilrwydd nad fydd rhai darnau o wybodaeth am gleifion yn cael eu gweld. Nodwyd o drafodaeth gydag aelodau staff nyrsio a meddygol eu bod yn rheoli'r risg hon trwy sicrhau eu bod yn adolygu'r ddwy set o ddogfennau gyda'i gilydd. Arsylwyd cyfarfod cynllunio gofal gennym gyda chaniatâd y claf, y perthnasau a'r staff ward a oedd yn bresennol a nodwyd fod yr aelodau staff yn cyfeirio at y ddwy set o ddogfennau wrth drafod cynnydd y claf a'r camau nesaf yn eu gofal.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennau cleifion yn darparu tystiolaeth eglur o anghenion pob unigolyn, ei ymyriadau gofal ac effeithiolrwydd a'r gwerthusiad o driniaeth.

Gwelsom ar adegau rhai aelodau staff y ward yn trafod cleifion gyda'r tîm meddygol gan ddefnyddio manylion personol. Gwnaed ymdrechion i gynnal cyfrinachedd a disgresiwn cleifion wrth i'r aelodau staff sicrhau y cynhelir trafodaethau yn yr ystafell gyfarfod ac y tu ôl i ddrysau caeedig.

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn gallu cael mynediad at eu cofnodion personol pan fyddant yn gofyn i'w gweld nhw a byddai aelodau'r staff nyrsio'n esbonio unrhyw beth nad ydynt yn ei ddeall. Roedd y cleifion yn teimlo ei bod yn hawdd mynd at aelodau'r staff nyrsio a bod yr aelodau staff yn cymryd amser i wrando ar bob un o'u cwestiynau a'u pryderon ac ymateb iddynt.

Parchu Pobl

Rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a medru cymryd penderfyniadau cytbwys, a rhaid i'r gofal a ddarperir gymryd anghenion, galluoedd a dymuniadau'r claf i ystyriaeth.

Gwelsom lawer o enghreifftiau o ryngweithio cyfeillgar ond parchus rhwng aelodau staff a chleifion wrth eu cynorthwyo i symud o gwmpas y ward.

Gwelsom yn ystod yr arolygiad yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan aelodau staff i amddiffyn hawliau dynol sylfaenol cleifion o ran urddas, preifatrwydd a dewis. Canfuwyd gennym hefyd bod y gofal a ddarperir ar y ward yn cymryd galluoedd a dymuniadau'r claf i ystyriaeth yn hyn o beth. Roedd tystiolaeth bod aelodau staff yn cynnal preifatrwydd ac urddas trwy gau drysau a llenni a defnyddio pegiau peidiwch â tharfu ar lenni cyn darparu unrhyw ofal personol. Ni welsom unrhyw aelodau staff yn mynd i mewn pan roedd y llenni ar gau, ac eithrio i gynorthwyo â gofal. Dywedodd aelodau staff bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal trwy drafod unrhyw faterion personol yn synhwyrol y tu ôl i lenni'r gwely.

Nodwyd gennym fod pobl yn cael eu hannerch gan ddefnyddio'r enw o'u dewis a'u bod yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau h.y. yr hyn yr hoffent i'w fwyta neu ei yfed, pa un a oeddent eisiau mynd yn ôl i'r gwely neu eisiau cawod neu faddon. Gwelwyd yr aelodau staff yn dangos amynedd a dealltwriaeth tuag at y cleifion roeddent yn gofalu amdanynt.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn hapus iawn gyda'r ffordd y mae aelodau staff yn mynd atynt ac yn sgwrsio â nhw. Roeddent yn llawn canmoliaeth i'r holl aelodau staff ar y ward ac fe'n hysbyswyd ganddynt ei bod yn ymddangos bod yr aelodau staff yn wybodus a gofalgarg.

Mae cyfeiriadau i'r ward yn yr ysbyty wedi eu marcio'n eglur, sy'n ei gwneud yn rhwydd dod o hyd i'r adran.

Dangosodd sgysrsiau gyda chleifion ac aelodau staff bod tîm y ward yn rhoi pwyslais ar rannu gwybodaeth gyda chleifion, eu perthnasau a'r cyhoedd mewn ffordd agored a thryloyw. Gwneir hyn yn rhannol trwy arddangos gwybodaeth ysgrifenedig arm berfformiad y ward, fel heintiau sy'n gysylltiedig â'r ysbyty, cwmpau cleifion a wlserau pwyso, ar hysbysfyrdau ac ar Groesau diogelwch².

²Siartiau cod lliw yw croesau diogelwch a welir ar wardiau i helpu i nodi tarddiad niwed pwyso i'r croen a hefyd i amlygu pan fydd wlser pwyso sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn gwaethygu.

Gwelsom lefel dda o lendid a chadw tŷ cyffredinol. Roedd cyfleusterau ystafell ymolchi'n fodern, yn lân iawn, yn gweithio'n dda ac yn amlwg yn rhydd o unrhyw annibendod neu eitemau cymunedol. Roedd ystafell olchi a chypyrddau storio'r ward yn drefnus iawn sy'n galluogi aelodau staff i ddod o hyd i unrhyw beth sydd ei angen arnynt yn rhwydd. Nodwyd gennym fod egwyddorion gweddnewid gofal³ wedi cael eu sefydlu ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol ym mhob cwpwrdd storio a'r rhan fwyaf o ystafelloedd storio i sicrhau bod stoc yn drefnus. Mae hyn hefyd yn cynorthwyo aelodau staff i ddod o hyd i eitemau'n gyflym.

Hyrwyddo Annibyniaeth

Rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r person wrth wneud y mwyaf o'u gallu a'u dymuniad i ofalu amdanynt eu hunain.

Canfuwyd bod cleifion yn cael eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl, ac roedd yr aelodau staff yn eu cynorthwyo i symud o gwmpas y ward gyda chymhorthion cerdded priodol ac yn cynnig cefnogaeth foesol yn ogystal â chorfforol. Fodd bynnag, hysbyswyd y bwrdd iechyd am yr angen i gynyddu cyfleoedd i annog a hybu hunan-reolaeth cleifion o gyflyrau gofal iechyd penodol a nodwyd, i baratoi ar gyfer eu rhyddhau'n ddiogel.

Gwelsom gleifion yn derbyn therapi gan y ffisiotherapydd yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y cleifion yn cael eu galluogi i eistedd ar eu gwelyau neu mewn cadeiriau ar yr erchwyn ar wahanol adegau o'r diwrnod, yn unol â'u dymuniadau.

Fodd bynnag, dangoswyd trwy archwilio sampl o gofnodion cleifion bod mwy o ganolbwynt ar asesu a rheoli nifer o gleifion â gofal colostomi a diabetes, yn hytrach na hyrwyddo ac annog hunan-reolaeth yn ymarferol. Mae hyn yn golygu nad oedd y cleifion dan sylw'n cael y cyfle i symud i lefel uwch o annibyniaeth a hunan-reolaeth i baratoi ar gyfer adsefydliad cyflymach a rhyddhad cynt o'r ward.

³Mae rhaglen waith Gweddnewid Gofal wedi galluogi nyrsys i dreulio mwy o amser ar yr erchwyn, wedi gwella amgylcheddau wardiau ac wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol i wiserau pwysu.

Argymhelliad

Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i gynyddu cyfleoedd ar gyfer annog a hybu hunan-reolaeth cleifion o gyflyrau gofal iechyd a nodwyd i baratoi i gael eu rhyddhau'n ddiogel.

Roedd tystiolaeth o wybodaeth menter 'This is Me'⁴ ar y ward; fodd bynnag, ceir dull anghyson o ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth ddarparu gofal i gleifion.

Argymhelliad

Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i sicrhau bod aelodau staff yn hyderus ac yn gymwys wrth ddefnyddio elfen 'This is Me' gofal cleifion.

Canfuwyd gennym nad oedd cleifion yn gallu cael gafael ar bapurau newydd dyddiol, deunyddiau darllen cyfredol eraill, taclau ymolch neu felysion gan nad oedd modd o brynu'r eitemau hyn. Awgrymodd y cleifion i ni siarad â nhw y byddai siop symudol yn cael ei chroesawu ac yn gwella eu profiad yn ystod eu harhosiad ar y ward.

Mae ystafell ddydd fawr ar gael i gleifion a'u perthnasau ei defnyddio i wyllo'r teledu a cheir nifer o lyfrau i'w darllen yn yr ystafell. Defnyddir yr ystafell ddydd fel ystafell fwyta yn ystod prydau bwyd ac anogir y cleifion i fwyta eu prydau yma a chynnal rhywfaint o'r profiad bwyta arferol y byddent yn ei gael y tu allan i'r ysbyty.

Perthnasau

Rhaid annog pobl i gadw eu cysylltiad gyda'u teulu a'u cyfeillion a datblygu perthynas ag eraill yn unol â'u dymuniadau.

Canfuwyd gennym fod perthnasau'n cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gofal cleifion. Ystyrir bod hyn yn arfer da, yn enwedig mewn achosion pan fo gan gleifion anawsterau cyfathrebu a nodwyd neu golled cof byrdymor.

Er bod amseroedd ymweld strwythuredig ar y ward, dywedodd yr aelodau staff bod rhywfaint o hyblygrwydd yn ôl y gofyn. Llwyddodd arsylwadau trwy gydol yr

⁴ Dull syml ac ymarferol yw This is Me y gall pobl â dementia ei ddefnyddio i hysbysu aelodau staff am eu hanghenion, eu dymuniadau, yr hyn maent yn ei hoffi ac nad ydynt yn ei hoffi a'u diddordebau.

arolygiad deuddydd i gadarnhau bod perthynas yn gallu aros gyda'r aelod o'i deulu yn unol â'i anghenion a'i ddymuniadau.

Roedd y cleifion yn mwynhau derbyn gofal gan dîm brwdfrydig y ward. Roedd hyn oherwydd iddynt ein hysbysu bod perthynas wych rhyngddyn nhw, eu perthnasau a'r aelodau staff.

Gorffwys, Cysgu a Gweithgareddau

Rhoi ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl er mwyn iddynt fedru gorffwys a chysgu.

Gwelsom y rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur cleifion fel y gallant orffwyso a chysgu.

Roedd nifer briodol o obenyddion a blancedi ar gael a gwelsom aelodau staff yn gofyn a oedd cleifion yn gyfforddus. Roedd y cwpwrdd dillad gwely'n llawn a dywedodd yr aelodau staff bod ganddynt gyflenwad priodol o ddillad gwely a gobenyddion.

Ni adroddodd y cleifion a gytunodd i siarad â ni unrhyw bryderon neu broblemau a dywedasant eu bod yn gallu gorffwyso drwy'r dydd neu'r nos.

Sicrhau Cysur, Lliniaru Poen

Rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus ac yn rhydd rhag poen ag y mae eu hamgylchiadau yn caniatáu.

Cynorthwywyd cleifion yn gyffredinol i fod mor rhydd o boen ag yr oedd eu cyflwr a'u hamgylchiadau'n ei ganiatáu; ni ddangosodd cleifion i ni siarad â nhw unrhyw arwyddion eu bod yn anghyfforddus a dywedasant eu bod yn gyfforddus. Fodd bynnag, pan edrychwyd ar sampl o ddogfennau cleifion, roedd siartiau sgorio poen ar gael, ond roedd yn anodd dod o hyd i gofnod ysgrifenedig o sut roedd aelodau staff wedi asesu effeithiolrwydd meddyginiaeth presgripsiwn.

Canfuwyd gennym fod asesiadau a gofnodwyd o boen cleifion yn anghyson ac nid oedd y broses sgorio poen mewn fformat cyson sy'n hawdd ei ddehongli. Gallai hyn olygu na fydd anghenion cleifion yn cael eu diwallu'n llawn.

Hefyd, ni nodwyd o graffu ar gofnodion gofal a oedd cleifion (a oedd yn dioddef poen cronig) wedi cael eu hatgyfeirio at y tîm rheoli poen cronig ar gyfer asesiad a chyngor ar eu hanghenion rheoli poen parhaus.

Argymhelliad

Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i sicrhau bod systemau a phrosesau ward priodol ar waith o ran rheoli poen cleifion.

Glendid Personol, Ymddangosiad a Gofal Traed

Rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol ag y bo modd o ran gofalu am eu glendid personol, ymddangosiad a thraed.

Mae gan y cleifion rywfaint o ddewis a dylanwad dros y gofal a'r gefnogaeth maent yn eu derbyn, ac mae'r aelodau staff yn cynnig cymorth a/neu anogaeth briodol i bob claf o ran ei hylendid personol.

Roedd yn ymddangos bod y cleifion ar y ward yn derbyn gofal da'n gyffredinol ac roeddent wedi ymolchi, yn lân ac, yn dibynnu ar ddymuniad y claf ei hun, wedi eillio. Roedd rhai cleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain a dywedodd aelodau staff y ward eu bod yn annog hyn.

Gwelsom gymorth a/neu anogaeth briodol yn cael eu darparu i hybu hylendid personol da a gwelwyd yr aelodau staff yn gofyn i gleifion a hoffent ymolchi neu gael cawod.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn cael eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl wrth ymolchi a gwisgo. Rhoddir cymorth yn ôl y gofyn a gwelsom aelodau staff yn gofyn i glaf a fyddai'n hoffi cymorth i olchi ei wallt. Gwelwyd fod y cleifion yn lân ac yn drwsiadus ar y ward.

Bwyta ac Yfed

Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl sy'n diwallu eu gofynion maethol a phersonol a bod cleifion yn cael unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.

Roedd gan gleifion sy'n gallu yfed yn annibynnol fynediad rhwydd at hylifau. Ail-lenwyd eu jygiau dŵr yn rheolaidd drwy'r dydd ac ar gais. Canfuwyd fod y jygiau dŵr o fewn cyrraedd rhwydd i'r cleifion ac roedd diodydd poeth ar gael yn rheolaidd ar gais hefyd. Gwelsom hefyd aelodau staff yn cynorthwyo cleifion nad oeddent yn gallu yfed yn annibynnol.

Canfuwyd gennym fod gan y ward drefn Amser Bwyd a Amddiffynnir ar waith. Mae hyn yn golygu y gall aelodau staff gynorthwyo a chefnogi cleifion i fwyta eu prydau gyda chyn lleied o ymyriad â phosibl ac mewn ffordd ddigynnwrf. Fe'n hysbyswyd gan aelodau staff bod perthnasau'n cael eu hannog i ymweld â'r ward ar adeg prydau bwyd a chynorthwyo'r aelod o'u teulu i fwyta ac yfed. Roedd hyn yn amlwg yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom ryngweithio da rhwng aelodau'r staff nyrsio a chleifion yn ystod prydau bwyd. Gwelwyd cleifion yn derbyn cymorth priodol i fwyta a gwelwyd aelodau staff yn annog cleifion yn dyner yn rheolaidd. Fodd bynnag, gwelsom na chynigiwyd llieiniau gwlyb na phowlenni golchi i'r cleifion cyn iddynt fwyta eu prydau.

Argymhelliad

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cynigir llieiniau gwlyb i gleifion neu gyfle i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd.

Canfuwyd o archwilio sampl o ddogfennau nad oedd yr aelodau staff yn cofnodi cymeriad deietgol a hylif yn gyson o ran y cleifion hynny yr aseswyd eu bod mewn perygl (oherwydd cymeriant deietegol gwael neu golled pwysau diweddar). Dywedodd gweithwyr cymorth gofal iechyd a siaradodd â ni mai eu cyfrifoldeb nhw oedd cofnodion o'r fath, ond nid oedd amser ganddynt i gwblhau'r siartiau bwyd a hylif fel sy'n ofynnol bob amser. Gallai hyn roi cleifion mewn perygl diangen.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau hylif Cymru Gyfan yn cael eu cwblhau'n llawn yn unol â Llwybr Gofal Maetheg Cymru Gyfan⁵ ar gyfer y ddarpariaeth o fwyd a hylif i gleifion mewnol mewn ysbytai.

Iechyd a Glendid Geneuol

Rhaid cefnogi pobl i gynnal cegau iachus a chyfforddus a dannedd a deintgig sy'n rhydd o boen, gan eu galluogi i fwyta'n dda ac atal problemau cysylltiedig.

Roedd yn amlwg bod cleifion yn cael eu cefnogi i gynnal cegau iachus a chyfforddus a dannedd a deintgig sy'n rhydd o boen, gan eu galluogi i fwyta'n dda ac atal problemau cysylltiedig.

Rhoddir sylw priodol i ofal geneuol. Mae hyn oherwydd bod y Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i ni siarad â nhw'n ymwybodol o'r hyn yr oedd angen

⁵ Protocol sy'n cynnig canllawiau technegol i arlwywyr, deietegwyr ac aelodau staff nyrsio sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion maethgol cleifion sy'n gallu bwyta ac yfed yw Llwybr Gofal Maetheg Ysbytai Cymru Gyfan.

iddynt ei wneud i gefnogi cleifion o ran yr elfen ofal hon. Fe'n hysbyswyd gan aelodau staff hefyd eu bod wedi derbyn hyfforddiant priodol a rheolaidd i ddarparu gofal geneuol.

Fe'n hysbyswyd bod stoc o frwsys dannedd a phast dannedd ar gael i'r cleifion hynny sydd eu hangen.

Ni welsom unrhyw faterion o bryder o ran iechyd a hylendid geneuol cleifion.

Anghenion Toiled

Rhaid rhoi cymorth priodol, diffwdan a phrydlon pan fo angen, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y toiledau'n lân ac yn daclus ac roedd seinyddion cymorth brys o fewn cyrraedd rhwydd i'r cleifion ym mhob un ohonynt. Roedd clychau galw'r nyrsys yn cael eu hateb yn brydlon ac ni ddywedodd unrhyw glaf ei fod mewn trallod o ganlyniad i orfod aros am gymorth.

Roedd yr holl gomodau'n lân; fodd bynnag, nid oedd stribedi gwyrdd ynghlwm iddynt i ddynodi eu bod wedi eu glanhau a'u bod ar gael i gleifion eu defnyddio.

Argymhelliad

Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i sicrhau bod aelodau staff yn dilyn y weithdrefn a gytunwyd i ddynodi bod comodau'n lân ac yn barod i gleifion eu defnyddio'n unol â chanllawiau perthnasol.

Roedd clychau galw'r nyrsys yn cael eu hateb yn brydlon ac ni ddywedodd unrhyw glaf ei fod yn ofidus o ganlyniad i orfod aros am gymorth.

Anogwyd a chefnogwyd y cleifion a oedd yn gallu i gerdded i'r toiled. Cafodd y rhai a oedd angen comôd eu trin gydag urddas a pharch, gan sicrhau bod eu preifatrwydd yn cael ei gynnal bob amser.

Roedd tystiolaeth o bediau ymataliaeth yn y storfa ac fe'n hysbyswyd gan aelodau staff eu bod yn defnyddio eu barn broffesiynol wrth benderfynu pa bediau i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion cleifion i ni eu hadolygu yn cynnwys unrhyw asesiadau ymataliaeth na thystiolaeth o atgyfeiriadau at y nyrs ymataliaeth arbenigol. Gallai hyn olygu nad yw anghenion ymataliaeth yn cael eu diwallu'n briodol.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y defnyddir Bwndel Ymataliaeth Cymru Gyfan⁶ yn gyson a chaiff ei werthuso i sicrhau bod anghenion ymataliaeth cleifion yn cael eu diwallu.

Rhwystro Briwiau Pwyso

Rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w rhwystro rhag datblygu briwiau pwyso.

Canfuwyd tystiolaeth gennym fod yr aelodau staff yn defnyddio dull asesu manau pwyso i'w cynorthwyo i nodi'r cleifion hynny a allai fod mewn perygl o ddatblygu wserau pwyso/niwed i'r croen. Roedd y cofnodion cleifion i ni eu hadolygu'n cynnwys asesiadau risg unigoleddig o ran yr agwedd hon ar ofal o'r pwynt derbyn.

Caiff bwndeli a siartiau SKIN⁷ eu mabwysiadu pan fo angen. Roedd y rhain wedi eu cwblhau a'u hadolygu fel sy'n ofynnol. Roedd tystiolaeth o ofal a monitro manau pwyso'n cael ei gyflawni yn ystod rowndio bwriadol⁸ ac roedd yr holl asesiadau o fannau pwysau i ni eu hadolygu'n gyfredol ar y cyfan ac yn cynnwys tystiolaeth o fonitro a gwerthuso rheolaidd.

⁶ Mae Bwndel Ymataliaeth Cymru Gyfan yn darparu dulliau i nyrsys nodi anghenion a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar gleifion.

⁷ Os ystyrir bod claf mewn perygl o ddatblygu wser pwyso, mae bwndel SKIN yn ei gwneud yn ofynnol i nyrsys gofnodi'r camau y maent yn eu cymryd bob dwy awr i leihau'r tebygolrwydd o niwed i groen cleifion.

⁸ Proses yw rowndio bwriadol sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gynnal archwiliadau rheolaidd gyda chleifion unigol ynghylch eu gofal, yn dilyn cyfnodau wedi eu pennu.

Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gall cleifion fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda. Roedd y brif nyrs yn gallu darparu gwybodaeth gynhwysfawr am y gwasanaeth a ddarperir a sut mae hwn yn berthnasol i angen y claf. Cefnogir tîm y ward gan arweinyddiaeth glinigol gref a ddarperir gan uwch reolwyr ac roedd diwylliant agored a chadarnhaol yn amlwg ar y ward.

Mae'r egwyddorion arweiniol ar gyfer lefelau staffio nyrsys a gyflwynwyd gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru na ddylid neilltuo mwy na saith claf i bob nyrs gofrestredig ar wardiau meddygol neu lawfeddygol yn ystod y diwrnod. Cadarnhaodd prif nyrs y ward bod lefelau staffio'n briodol yn ystod ein harolygiad a chadarnhaodd yr aelodau staff i ni siarad â nhw eu bod yn teimlo bod y lefel staffio a'r cyfuniad o nyrsys cofrestredig/gweithwyr cymorth gofal iechyd yn briodol i ddiwallu anghenion y cleifion. Gwelsom fod aelodau staff bob amser yn amlwg yn y man lle'r oedd cilfannau cleifion a bod yr aelodau staff yn ymateb yn brydlon i alwadau am gymorth ar seinyddion.

Roedd aelodau staff uwch yn gwbl ymwybodol o'r polisi dwysau sydd ar waith ar y ward sy'n eu galluogi i ofyn am ragor o aelodau staff i ymateb i newidiadau a nodir i anghenion cleifion.

Canfuwyd gennym fod tîm y ward yn darparu gofal a chefnogaeth i gleifion mewn ffordd hamddenol ac effeithlon trwy gydol yr arolygiad. Canfuwyd gennym hefyd bod amrywiaeth o brosesau a systemau sefydledig ar waith i sicrhau y darperir gofal cleifion yn effeithlon. Yn ystod yr arolygiad, roedd prif nyrs y ward yn gallu rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i ni am y gwasanaeth a ddarperir yn y ward a sut mae hwn yn berthnasol i anghenion cleifion.

Roedd diwylliant agored a chadarnhaol yn amlwg ar y ward. Cadarnhawyd hyn trwy drafodaethau gydag aelodau staff a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo y gallent godi pryderon am ofal cleifion yn rhydd gyda phrif nyrs y ward. Fe'n hysbyswyd bod tîm y ward yn cael ei gefnogi gan arweinyddiaeth glinigol gref a ddarperir gan uwch reolwyr. Canfuwyd gennym hefyd bod aelodau'r tîm yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Nodwyd o drafodaeth gyda'r brif nyrs y darperir pynciau hyfforddi i aelodau staff gan gynnwys urddas, dementia, camdriniaeth a chynnwys teuluoedd. Fe'n hysbyswyd gan y brif nyrs hefyd bod gorddibyniaeth ar e-ddysgu a chefnogwyd hyn ymhellach gan aelodau staff eraill a gadarnhaodd i ni nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw hyfforddiant a gynigir mewn fformat nad yw'n electronig. Gwelsom fod nifer o gleifion â dementia ar y ward ac roedd y brif nyrs yn cytuno

y byddai o fudd i fwy o aelodau staff dderbyn hyfforddiant penodol gan fod aelodau staff yn gofalu am nifer gynyddol o gleifion â deliriwm, dementia a dryswch.

Argymhelliad

Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i sicrhau bod aelodau staff yn gymwys ac yn hyderus i ddiwallu anghenion a nodwyd pob claf bob amser.

Roedd gan yr aelodau staff ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig ag ymdrin â chwynion a'u rheoli a chynigiwyd enghreifftiau ganddynt o sut roedd y tîm yn cyfathrebu gyda pherthnasau yr oedd ganddynt bryderon. Fe'n hysbyswyd hefyd bod perthnasau'n cael eu hannog i godi unrhyw bryderon gydag aelodau staff sy'n cael eu grymuso gan aelodau staff uwch i ddarparu gwybodaeth yn agored.

Gelsom yr aelodau staff domestig a'r gwesteiwragedd yn gweithio'n rhan o dîm y ward. Roedd pob un yn wybodus am anghenion cleifion unigol gan gynnwys gofynion arbennig a gofynion hylif a maetheg.

Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

Rhaid hyrwyddo ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl yn weithredol. Rhaid adnabod risgiau, eu monitro a lle'n bosibl, eu lleihau neu eu rhwystro.

Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod aelodau staff y ward yn rhoi sylw i ddarparu gwasanaeth diogel i gleifion. Roedd amgylchedd y ward yn lân ac yn ffres ac roedd yn ymddangos bod safonau hylendid yn foddhaol.

Nodwyd o sgysiau gyda chleifion eu bod yn fodlon gyda'r glendid yn eu hardal.

Diogelwch Cleifion

Canfuwyd gennym fod digon o focsys offer miniog ar gyfer cael gwared ar nodwyddau, chwistrellau ac offer arall sy'n gysylltiedig â chleifion. Nid oedd yr un o'r bocsys a welwyd yn orlawn sy'n golygu nad oedd gwrthrychau miniog yn peri unrhyw risg i aelodau staff.

Gwelsom yn ystod yr arolygiad bod aelodau staff nyrsio a gofal wedi gwisgo'n unol â chod gwisg Cymru Gyfan. Fodd bynnag, nid oedd rhai aelodau staff yn gwisgo manylion adnabod eglur y gellid eu gweld.

Argymhelliad

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau cydymffurfiaid ag egwyddor 5 cod gwisg Cymru Gyfan⁹, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff wisgo manylion adnabod sy'n gwbl amlwg bob amser.

Roedd y droli dadebru brys wedi ei gynnal a'i gadw a'i archwilio fel sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod offer cleifion yn barod i'w ddefnyddio yn ôl yr angen.

Dangosodd sgysiau gydag aelodau staff eu bod yn gyfarwydd â pholisïau a chanllawiau cyfredol y ward. Archwiliwyd gennym a oedd gan aelodau staff ddealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a'r prosesau sy'n gysylltiedig â diogelu (a

⁹Datblygwyd Cod Gwisg Cymru Gyfan y GIG gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gwmpasu'r egwyddorion o ysbrydoli hyder, atal heintiau ac ar gyfer iechyd a diogelwch y gweithlu. Mae'n berthnasol i bawb pa un a ydynt yn gweithio mewn man clinigol neu anghlinigol.

adnabyddir hefyd fel amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed) a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS)¹⁰. Fe'n hysbyswyd gan aelodau staff y byddent yn gallu nodi unrhyw sefyllfaoedd posibl lle gallai fod angen amddifadu claf o'i ryddid am resymau diogelwch, ond y byddent yn cyfeirio at y brif nyrs er mwyn dyrchafu unrhyw broblemau penodol yn hyn o beth.

Nodwyd gennym y gallai fod diffyg cydymffurfiaid posibl o ran cyfrinachedd gan i ni weld gwybodaeth deietegol claf yn cael ei chofnodi ar fwrdd gwyn ym mhrif goridor y ward. Yr arfer gorau fyddai cofnodi llythrennau cyntaf enw cleifion neu eu rhifau adnabod yn hytrach na'u henwau.

Argymhellion

Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod cyfrinachedd cleifion yn cael ei barchu cymaint â phosibl, yn enwedig ar wardiau ysbyty, mannau cyhoeddus a derbynfeydd.

Rheoli Meddyginiaeth

Roedd ystafell driniaeth y ward yn drefnus ac yn hygyrch i aelodau staff awdurdodedig yn unig. Roedd pob cwpwrdd wedi ei labelu'n eglur. Edrychwyd ar y llyfr cofnodi cyffuriau a reolir a chanfuwyd bod y cofnodion o roi meddyginiaeth a lefel y stoc yn gywir. Caiff cyffuriau a reolir eu storio mewn cwpwrdd dan glo, yn unol â chanllawiau cyfredol a pherthnasol, ac roedd tystiolaeth bod lefelau stoc yn cael eu gwirio gan aelodau staff yn feunyddiol. Rhoddwyd meddyginiaeth gan nyrsys a oedd yn gwisgo tabardau coch¹¹ fel na fyddent yn cael eu hymyrryd. Gwelsom gleifion yn gwisgo bandiau adnabod ar eu harddynau sy'n cael eu gwirio cyn rhoi unrhyw feddyginiaethau. Ni adawyd troliau cyffuriau heb eu goruchwyllo ar unrhyw adeg ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o gyffuriau'n cael eu gadael i gleifion eu cymryd yn ddiweddarach. Roedd siartiau meddyginiaeth wedi eu cwblhau'n briodol.

¹⁰ Pan na fydd gan unigolyn y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am y gofal neu'r driniaeth sydd ei angen arno, mae'n rhaid dilyn deddfwriaeth o'r enw'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon.

¹¹ Caiff y tabard coch ei wisgo dros wisg y nyrs gofrestredig yn ystod pob rownd gyffuriau. Mae'n helpu i wella diogelwch y broses o roi meddyginiaethau ac yn galluogi'r nyrs i ganolbwyntio heb i'w sylw gael ei dynnu gan hysbysu aelodau staff eraill am yr union swydd sy'n cael ei chyflawni.

Cadw Cofnodion

Esboniodd y brif nyrs system DATIX¹² ar gyfer cofnodi digwyddiadau clinigol ac roedd yn amlwg yn gyfarwydd â'i defnyddio. Nodwyd trwy drafodaeth bod rhai digwyddiadau'n cael eu datrys yn gyflym ar lefel y ward, tra bod angen trafod digwyddiadau eraill gyda chydweithwyr eraill yn y bwrdd iechyd oherwydd yr ystyriwyd bod datrys y mater yn fwy cymhleth.

Roedd tystiolaeth o'r defnydd o egwyddorion cyffredin yn gysylltiedig â'r Fenter 1000 o Fywydau¹³ yn cael eu rhoi ar waith ar y ward ac roedd tystiolaeth wedi'i chofnodi o'r defnydd o "fwndeli gofal" priodol¹⁴.

Cynllunio Gofal

Archwiliwyd nodiadau achos pedwar claf gennym yn ystod yr arolygiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys craffu ar nodiadau meddygol a nyrsio ac arsylwadau o'r gofal a roddir. Cawsom sgwrs gyda'r cleifion dan sylw a'r aelodau staff a oedd yn darparu eu gofal a'u cymorth er mwyn cael safbwynt cyflawn o sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Yn sgil hynny, canfuwyd nad oedd yr holl nodiadau nyrsio'n cynnwys asesiadau risg cleifion na chynlluniau gofal unigoledig. Pan roedd cynlluniau gofal, roedd y wybodaeth a gofnodwyd yn gyffredinol ei natur ac nid oedd yn seiliedig ar anghenion unigoledig.

Canfuwyd gennym hefyd bod nifer o gofnodion gofal a oedd yn disgrifio gofal cyffredinol h.y. 'ymolchwyd yn llawn' ac nad oeddent wedi eu llofnodi, eu dyddio ac nad oedd yr amser cofnodi wedi ei gynnwys chwaith. Prin oedd y dystiolaeth hefyd bod aelodau staff wedi cofnodi'r holl gamau gweithredu a gofal a gyflawnwyd ganddynt. Gwelsom lawer mwy o ofal yn cael ei roi'n ymarferol ar y ward na'r hyn oedd wedi ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion. Trafodwyd hyn

¹² Dull a ddefnyddir yn y GIG i gofnodi, ymchwilio a dadansoddi achosion o ddigwyddiadau andwyol a digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yw DATIX.

¹³ Nod yr *Ymgrych 1000 o Fywydau* yw gwella diogelwch cleifion a gwella ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

¹⁴ Mae bwndeli gofal yn ymwneud â'r defnydd cyson o ddarparu gofal cleifion a gofnodir wedyn ar gyfres o ffurflenni. Nod y dull yw gwella safonau gofal a chanlyniadau i gleifion.

gyda rhai aelodau staff a esboniodd bod hyn oherwydd y byddai gofal cleifion yn cael ei flaenoriaethu cyn cadw cofnodion os oeddent yn brin o amser. Er bod hyn yn flaenoriaethu rhesymegol, mae angen cwblhau cofnodion gofal yn llawn ac yn brydlon gan adlewyrchu'r holl ofal a roddir.

Mewn un set o gofnodion claf, prin oedd y dystiolaeth a ganfuwyd gennym o gynllunio gofal neu bennu nodau. Pan amlygwyd risgiau i adsefydliad tuag at ryddhau, fel symudedd, nid oedd unrhyw gynllun gweithredu i oresgyn y risg a pharhau cynnydd tuag at ryddhau.

Argymhelliad

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennau cleifion yn adlewyrchu'r gofal a'r driniaeth a roddir a bod cynlluniau gofal yn unigoledig ac yn canolbwyntio ar nodau.

Gofal Diabetig

Nid oedd menter "Think Glucose"¹⁵ i'w gweld ar y ward er i aelodau staff ddweud bod protocolau ar gael ar gyfer gofal diabetig.

Edrychwyd ar ofal claf diabetig a chanfuwyd gennym fod siart bwyd i fonitro a chofnodi cymeriant maetheg. Fe'n hysbyswyd bod yr aelodau staff yn monitro darlenniadau siwgr gwaed. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cysyniadau DAFNE¹⁶ / DAFYDD¹⁷ yn cael eu hyrwyddo.

Gwelsom nad oedd cleifion yn cael eu hannog a'u cefnogi i hunanreoli eu diabetes er i glaf ddweud ei fod eisoes yn wybodus a phrofiadol o ran rheoli ei gyflwr.

¹⁵ Menter genedlaethol a arweinir gan Sefydliad dros Arloesedd a Gwella'r GIG yw 'Think Glucose'. Ei nod yw gwella gofal diabetes cleifion mewnol gan gynnwys defnydd effeithiol o'r tîm diabetes cleifion mewnol arbenigol.

¹⁶ Ffordd o reoli diabetes Math 1 yw DAFNE (Dose Adjustment For Normal Eating) ac mae'n darparu'r sgiliau angenrheidiol i bobl amcangyfrif y carbhydrad ym mhob pryd ac i chwistrellu'r dos cywir o inswlin.

¹⁷ Rhaglen addysg i bobl â diabetes Math 1 yw DAFYDD (Dose Adjustment For Your Daily Diet).

Argymhelliad

Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i sicrhau bod aelodau staff yn hyderus ac yn gymwys wrth ddarparu gofal a chymorth i gleifion â diabetes.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gwblhau Cynllun Gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno eu Cynllun Gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai Cynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ar Ward Sam Davies yn Ysbyty'r Barri yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau / unedau eraill y Bwrdd Iechyd.

Caiff Cynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar Urddas a Gofal Sylfaenol.

Atodiad A

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty'r Barri

Ward/ Adran: Ward Sam Davies (gwasanaethau aciwt a chanolraddol i bobl hŷn)

Dyddiad yr Arolygiad: Dydd Mawrth 5 a Dydd Mercher 6 Awst 2014

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Profiad y Claf			
	Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r thema uchod.			
	Cyflenwi Hanfodion Gofal			
8.	Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried dulliau eraill o gyfathrebu fel y gall cleifion dderbyn gwybodaeth lawn mewn ffordd sy'n ystyriol o'u hanghenion			

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
9.	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennau cleifion yn darparu tystiolaeth eglur o anghenion pob unigolyn, ei ymyriadau gofal ac effeithiolrwydd a'r gwerthusiad o driniaeth.			
11.	Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i gynyddu cyfleoedd ar gyfer annog a hybu hunanreolaeth cleifion o gyflyrau gofal iechyd a nodwyd i baratoi i gael eu rhyddhau'n ddiogel.			
12.	Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i sicrhau bod staff yn hyderus ac yn gymwys wrth ddefnyddio elfen 'This is Me' gofal cleifion.			
13.	Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i sicrhau bod systemau a phrosesau ward priodol ar waith o ran rheoli poen cleifion.			
15.	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cynigir llieiniau gwlyb i gleifion neu gyfle i			

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	olchi eu dwylo cyn prydau bwyd.			
15.	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau hylif Cymru Gyfan yn cael eu cwblhau'n llawn yn unol â Llwybr Gofal Maetheg Cymru Gyfan ar gyfer y ddarpariaeth o fwyd a hylif i gleifion mewnol mewn ysbytai.			
16.	Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i sicrhau bod staff yn dilyn y weithdrefn a gytunwyd i ddynodi bod comodau'n lân ac yn barod i gleifion eu defnyddio'n unol â chanllawiau perthnasol.			
17.	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y defnyddir Bwndel Ymataliaeth Cymru Gyfan yn gyson a chaiff ei werthuso i sicrhau bod anghenion ymataliaeth cleifion yn cael eu diwallu.			
Ansawdd Staffio, Rheoli ac Arweinyddiaeth				
19.	Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i sicrhau bod staff yn gymwys ac yn hyderus i			

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	ddiwallu anghenion a nodwyd pob claf bob amser.			
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol			
20.	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau cydymffurfiaid ag egwyddor 5 cod gwisg Cymru Gyfan, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff wisgo manylion adnabod sy'n gwbl amlwg bob amser.			
21.	Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod cyfrinachedd cleifion yn cael ei barchu cymaint â phosibl, yn enwedig ar wardiau ysbyty, mannau cyhoeddus a derbynfeydd.			
23.	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennau cleifion yn adlewyrchu'r gofal a'r driniaeth a roddir a bod cynlluniau gofal yn unigoledig ac yn canolbwyntio ar nodau.			
24.	Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i sicrhau bod aelodau staff yn hyderus ac yn			

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	gymwys wrth ddarparu gofal a chymorth i gleifion â diabetes.			

Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd:

Enw (printiwch):

Teitl:

Llofnod:

Dyddiad: